# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Llanystumdwy

Dyddiad yr arolygiad: 19/01/2026

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae Ysgol Llanystumdwy yn darparu amgylchedd dysgu cyfeillgar lle mae disgyblion, staff a rhieni yn teimlo'n rhan o gymuned glòs. Mae arweinyddiaeth ysbrydoledig y pennaeth yn gosod cyfeiriad clir ar gyfer gwaith yr ysgol ac yn sicrhau bod lles disgyblion a pherthnasoedd gwaith cadarn wrth wraidd y ddarpariaeth addysgol. Mae'r ffocws hwn yn amlwg yng ngwaith dyddiol y staff ac yn helpu i feithrin ymdeimlad cryf o ddiogelwch, ymddiriedaeth a pharch ymhlith y disgyblion.

Mae staff yn adnabod anghenion lles a dysgu'r disgyblion yn dda, ac, o ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn hapus ac yn dangos agweddau cadarnhaol at eu dysgu. Mae ymddygiad y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gadarnhaol. Maent yn cydweithio'n effeithiol ac yn dangos gwydnwch a dyfalbarhad priodol wrth ymgysylltu â'u gwaith. Mae gweithgareddau dysgu proffesiynol buddiol yn cryfhau gallu staff i gefnogi disgyblion ag anghenion emosiynol neu ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae cydweithio effeithiol rhwng staff, teuluoedd ac asiantaethau allanol yn helpu disgyblion ag anghenion emosiynol i oresgyn rhwystrau rhag dysgu yn fuddiol.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer gwerthuso ansawdd yn addas. Mae arweinwyr yn adnabod cryfderau'r ysgol a rhai meysydd i'w gwella yn briodol, ar y cyfan. Nid yw gweithgareddau gwerthuso ansawdd arweinwyr bob amser yn canolbwyntio'n ddigon manwl ar effaith y ddarpariaeth ar ddeilliannau disgyblion er mwyn sicrhau gwelliant parhaus.

Mae'r cwricwlwm yn cynnig ystod eang o brofiadau dysgu pwrpasol sy'n ennyn a chynnal diddordeb y rhan fwyaf o ddisgyblion. Mae athrawon yn defnyddio holi ac adborth llafar yn fwriadus i gefnogi disgyblion i adalw dysgu blaenorol ac i feddwl yn ddyfnach am eu gwaith. Mae llawer o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag ADY a'r rhai o aelwydydd incwm isel, yn gwneud cynnydd priodol yn eu medrau dros amser. Er hyn, nid yw gweithgareddau bob amser yn herio dysgu ychydig o ddisgyblion yn ddigon cyson.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau darllen disgyblion yn gryf, ac erbyn brig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn darllen yn hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg. Cryfder nodedig y ddarpariaeth yw'r dulliau a ddefnyddir i gefnogi disgyblion i ddatblygu eu medrau llafar Cymraeg. Trwy hyn, mae llawer yn siarad yn glir ac yn defnyddio iaith gyfoethog mewn amrywiaeth o gyd-destunau.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1 Cryfhau prosesau gwella ansawdd

A2 Darparu profiadau er mwyn herio dysgu'r disgyblion yn gyson

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 23/03/2026